Rhan 4.3 - Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi

1. Y fframwaith ar gyfer penderfyniadau gweithredol

Bydd y Cyngor yn gyfrifol am fabwysiadu ei Gyllideb a'i Fframwaith Polisi fel y'u cyflwynir yn Erthygl 4. Cyn gynted ag y bo'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn ei lle, cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw ei weithredu.

2. RHEOLAU GWEITHDREFN Y GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI – PROSES AR GYFER DATBLYGU'R FFRAMWAITH POLISI

2.1 Y "Gyllideb a'r Fframwaith Polisi" yw'r casgliad llawn o strategaethau, polisïau a chynlluniau a gymeradwywyd sy'n pennu gwaith y Cyngor a'i weithgareddau gwneud penderfyniadau. Yn fwyaf arbennig, "Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi" yw'r pwynt cyfeirio a'r awdurdod i'r Bwrdd Gweithredol a'i aelodau unigol wneud penderfyniadau a'u gweithredu i wireddu nodau'r Cyngor. Mewn unrhyw flwyddyn benodol, fe fydd Cynllun ar gyfer y Dyfodol (rhaglen waith i ddatblygu polisïau newydd ac ati) i hyrwyddo a datblygu'r "Gyllideb a'r Fframwaith Polisi" – a chytunir ar amlinelliad o hwn fel arfer mewn Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor fis Mai bob blwyddyn. Bydd cynigion unigol ar gyfer polisïau, cynlluniau a strategaethau newydd hefyd yn dod gerbron yr aelodau yn nes ymlaen am gymeradwyaeth.

2.2 Mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon mae disgrifiad o'r gwahanol strwythurau aelodaeth sy'n datblygu, gweithredu a monitro gwaith y Cyngor – mae'r rhain yn cynnwys y Cyngor llawn, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgorau Craffu a'r Paneli Ymgynghorol sydd â'r gwaith o gynorthwyo Aelodau'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu polisïau newydd a chynigion eraill. Yn ogystal, mae cyfarfodydd anffurfiol o'r aelodau, cyfarfodydd o'r swyddogion – megis y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Fforwm Swyddogion Polisi – a gweithgorau eraill sy'n chwarae rhan allweddol mewn datblygu a gweithredu polisïau.

2.3 Diffinnir cyfeiriadau at y Gyllideb yng nghyd-destun y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi i olygu'r broses lle mae'r Bwrdd Gweithredol, cyn Chwefror/Mawrth bob blwyddyn ariannol, yn cyflwyno'r canlynol i'r Cyngor llawn am ystyriaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol ddilynol –

- Amcangyfrifon o'r symiau i'w cyfuno wrth wneud cyfrif (p'un ai'r gwreiddiol neu arall) yn unol ag unrhyw un o adrannau 32 i 37 neu 43 i 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992;
- Amcangyfrifon o symiau eraill i'w defnyddio at ddibenion y cyfryw gyfrif;
- Amcangyfrifon o'r cyfryw gyfrif; neu
- Y symiau sydd angen eu nodi mewn praesept o dan Bennod IV o Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

2.4 Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyhoeddi amserlen, drwy ei chynnwys yn ei Raglen ar gyfer y Dyfodol, fydd yn nodi pryd y gwneir cynigion i'r Cyngor o ran mabwysiadu cyllideb ac unrhyw bolisi, cynllun a/neu strategaeth sy'n ffurfio rhan o'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, a'i drefniadau ar gyfer ymgynghori ar ôl cyhoeddi ei gynigion cyntaf. Bydd y dull a ddefnyddir i ymgynghori yn addas ac yn briodol i'r mater dan ystyriaeth, a bydd yn cynnwys darlleniad cyntaf gan y Cyngor Sir fel sy'n briodol ar gyfer y cynllun neu strategaeth dan sylw. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu hefyd yn cael eu hysbysu ac ni fydd y cyfnod ymgynghori mewn unrhyw achos yn llai na 4 wythnos oni bai bod ffactorau arbennig sy'n gwneud yr amserlen hon yn amhriodol. Os oes, bydd yn nodi'r rhesymau wrth gyhoeddi'r Cynllun ar gyfer y Dyfodol, a bydd yn hysbysu'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Yn achos y Gyllideb, y pwyllgor perthnasol yw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

2.5 Os mai'r mater yw un lle mae'r Pwyllgor Craffu wedi gwneud adolygiad o'r polisi, yna bydd canlyniad yr adolygiad hwnnw yn cael ei ddwyn i sylw'r Bwrdd Gweithredol a'i ystyried wrth baratoi ei gynigion cyntaf.

2.6 Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y Bwrdd Gweithredol yn llunio cynigion pendant ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghori hwnnw. Os yw Pwyllgor Craffu perthnasol yn dymuno ymateb i'r Bwrdd Gweithredol yn y broses honno o ymgynghori, yna fe all wneud hynny. Gan fod cyfrifoldeb ar Bwyllgorau Craffu i lunio eu rhaglen waith eu hunain, mae'n agored i'r Pwyllgor Craffu ystyried y mater a dwyn adroddiad i sylw'r Bwrdd Gweithredol gydag argymhellion polisi cyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Gall y Bwrdd Gweithredol gymryd unrhyw ymateb gan Bwyllgor Craffu i ystyriaeth wrth lunio cynigion pendant i'w cyflwyno i'r Cyngor, a bydd ei adroddiad i'r Cyngor yn amlygu'r sylwadau a wnaed gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, ac ymateb y Bwrdd Gweithredol.

2.7 Unwaith bod y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo'r cynigion pendant, bydd y Prif Weithredwr yn eu cyfeirio gynted ag y bo modd at sylw'r Cyngor am benderfyniad, ac yn achos y Gyllideb, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer y Dyfodol. Cyn belled â bod y Gyllideb yn y cwestiwn, gall y Cyngor fabwysiadu cynigion y Bwrdd Gweithredol neu eu diwygio fel y credant sy'n briodol. Caiff y penderfyniad hwnnw wedyn ei gyhoeddi a'i weithredu yn unol â'r amserlen yn y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol ac i fodloni unrhyw ofynion statudol.

2.8 O ran unrhyw gynllun neu strategaeth arall yn y Gyllideb neu Fframwaith Polisi, gall y Cyngor fabwysiadu cynigion y Bwrdd Gweithredol, eu diwygio, eu cyfeirio'n ôl at y Bwrdd Gweithredol i'w hystyried ymhellach, neu mewn egwyddor, eu disodli gan eu cynigion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynllun neu strategaeth, a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol, er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Weinidog y Goron am ei gymeradwyaeth ef/hi – p'un ai ar ffurf ddrafft neu beidio – lle mae gofyn i unrhyw gynllun neu strategaeth gael eu cyflwyno.

2.9 Bydd penderfyniad y Cyngor yn cael ei gyhoeddi a rhoddir copi i'r Arweinydd. Bydd yr hysbysiad am y penderfyniad yn cael ei ddyddio, a bydd yn nodi naill ai bod y penderfyniad yn dod i rym yn ddiymdroi, os yw'r Cyngor yn derbyn cynigion y Bwrdd Gweithredol heb eu newid, neu os na dderbynnir cynigion y Bwrdd Gweithredol heb eu newid, y daw penderfyniad y Cyngor i rym ar ôl 5 diwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y penderfyniad, oni bai bod yr Arweinydd yn ei wrthwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw. Os yw'r Cyngor yn penderfynu cyfeirio'r mater yn ôl at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried ymhellach, bydd y penderfyniad hwnnw yn dod i rym yn ddi-oed.

2.10 Rhaid i'r Arweinydd roi gwybod i'r Prif Weithredwr yn ysgrifenedig cyn pen 5 diwrnod gwaith ei fod ef/hi yn gwrthwynebu bod y penderfyniad yn dod i rym, a rhaid nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad.

2.11 Yn yr achos hwnnw, bydd y Prif Weithredwr yn galw cyfarfod o'r Cyngor cyn pen 10 diwrnod gwaith arall o dderbyn gwrthwynebiad ysgrifenedig yr Arweinydd. Yn y cyfarfod hwnnw, caiff y penderfyniad ei ailystyried yng ngoleuni'r gwrthwynebiad, a gall y Cyngor:-

2.11.1 gymeradwyo argymhellion y Bwrdd Gweithredol drwy fwyafrif syml o bleidleisiau yn y cyfarfod; neu

2.11.2 gymeradwyo penderfyniad gwahanol nad yw yn unol ag argymhelliad y Bwrdd Gweithredol drwy fwyafrif syml.

2.12 Bydd y penderfyniad wedyn yn dod yn benderfyniad cyhoeddus, a chaiff ei weithredu yn ddi-oed.

2.13 Lle bo'r Cyngor wedi cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Bwrdd Gweithredol am ystyriaeth bellach, bydd y Prif Weithredwr yn galw cyfarfod arall o'r Cyngor cyn pen 15 diwrnod gwaith o'r cyfarfod gwreiddiol, i ail ystyried y mater ar ôl i'r Bwrdd Gweithredol ystyried y mater ymhellach. Bydd penderfyniad y Cyngor yn cael ei ailystyried yng ngoleuni'r ystyriaethau pellach hyn, a gall y Cyngor wneud y penderfyniad yn unol â pharagraffau 2.1 – 2.7 o'r rheolau hyn.

2.14 Wrth gymeradwyo'r gyllideb a'r fframwaith polisi, bydd y Cyngor hefyd yn nodi graddau'r trosglwyddo arian o fewn y gyllideb a graddau'r newidiadau o fewn y flwyddyn i'r fframwaith polisi y gellir ei wneud gan y Bwrdd Gweithredol yn unol â pharagraff 3 o'r Rheolau hyn (trosglwyddo arian a newidiadau o fewn y flwyddyn). Mae unrhyw newidiadau eraill i'r polisi a'r fframwaith cyllidebol yn cael eu neilltuo i'r Cyngor.

3. AMRYWIADAU I'R BROSES – TROSGLWYDDO ARIAN AC ADDASIADAU/NEWIDIADAU O FEWN Y FLWYDDYN I'R FFRAMWAITH POLISI

3.1 Gall y Bwrdd Gweithredol, Aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol ac unrhyw swyddog sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol ond gwneud penderfyniadau sy'n unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi. Os yw unrhyw un o'r cyrff neu bersonau hyn yn dymuno gwneud penderfyniad sy'n groes i'r Fframwaith Polisi, yna dim ond y Cyngor all wneud y penderfyniad hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff 3.3 isod.

3.2 Os yw'r Bwrdd Gweithredol, Aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol ac unrhyw swyddog sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol yn dymuno gwneud y cyfryw benderfyniad, bydd y Swyddog Monitro yn gallu dweud wrthynt a yw'r penderfyniad yn groes i'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi. Os mai ei gyngor ef yw na fyddai'r penderfyniad yn unol â'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, yna rhaid i'r corff hwnnw gyfeirio'r penderfyniad hwnnw i'r Cyngor am benderfyniad, oni bai bod y penderfyniad yn fater brys, ac mewn achos o'r fath, bydd y darpariaethau ym mharagraff 3.3 yn gymwys.

3.3 Mae'r cyfrifoldeb am gytuno ar y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn gorwedd ar ysgwyddau'r Cyngor, a rhaid i benderfyniadau gan y Bwrdd Gweithredol, Aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu swyddog fod o fewn hwnnw. Ni all y cyrff neu unigolion hynny wneud newidiadau i unrhyw bolisi a strategaeth sy'n ffurfio'r Gyllideb neu Fframwaith Polisi ar wahân i'r newidiadau hynny:

3.3.1 sy'n golygu cau neu beidio â pharhau â gwasanaeth neu ran o wasanaeth i gydymffurfio â phenderfyniad y Cyngor o ran y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi;

3.3.2 sydd eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith, cyfarwyddyd gweinidog neu gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru;

3.3.3 o ran polisi y byddai'r Cyngor fel arfer yn cytuno arno yn flynyddol yn dilyn ymgynghori, ond lle mae'r ddogfen bolisi bresennol yn dawedog ar y mater o dan ystyriaeth;

3.3.4 sy'n ymwneud â pholisi mewn perthynas ag ysgolion, lle mae'r mwyafrif o gyrff llywodraethol ysgolion yn cytuno â'r newid arfaethedig; a

3.3.5 y mae'r Swyddog Monitro yn cytuno ei fod, neu os na wneir ni fyddent, yn groes i'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi;

3.3.6 sydd yn unol â'r rheolau trosglwyddo arian a nodir isod:

4. TROSGLWYDDO ARIAN

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau trosglwyddo arian y mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Gwasanaeth, Swyddogion Cyfrifol a Rheolwyr Cyllideb gydymffurfio â hwy wrth reoli a monitro eu cyllidebau

Gall Cyfarwyddwyr, os dymunant, bennu rheolau lleol penodol ar drosglwyddo arian ar gyfer eu rheolwyr cyllideb, ond ni all y rhain fynd uwchlaw'r terfynau cyffredinol a bennir isod. Dylai unrhyw Reolwr Cyllideb nad yw'n glir ynghylch y terfynau y gall weithredu yn ôl ei ewyllys o ran trosglwyddo arian, ofyn am eglurhad oddi wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

Diffiniad a Phwrpas

Trosglwyddo arian yw trosglwyddo arian rhwng un gyllideb a'r llall er mwyn cael ffordd hyblyg o wireddu amcanion. Gall trosglwyddo arian fod yn offeryn defnyddiol, gan alluogi rheolwyr aros o fewn eu cyllideb yn gyffredinol. Os camddefnyddir ef fodd bynnag, gall trosglwyddo arian danseilio amcanion strategol y Cyngor drwy symud cronfeydd arian i ffwrdd oddi wrth wasanaethau blaenoriaeth, a byddai hynny yn amlwg yn anfanteisiol. Am y rheswm hwn, mae rheolau a therfynau caeth yn eu lle ar drosglwyddo arian o fewn gwasanaethau a rhwng un gwasanaeth a'r llall.

(Diffinnir gwasanaeth at ddibenion y rheolau hyn fel unrhyw faes gweithrediadau sydd â phennawd cyllideb yn ymddangos yn amcangyfrifon incwm a gwariant yr awdurdod e.e. uned argraffu, casglu sbwriel, amgueddfeydd ac ati).

Polisi a Rheolau Trosglwyddo Arian

Gall trosglwyddo arian fod naill ai yn drefniant dros-dro neu'n drefniant parhaol. Mae trosglwyddo arian dros-dro yn digwydd o fewn blwyddyn ariannol y mae cyllidebau wedi'u pennu ar ei chyfer, a rhaid eu defnyddio i unioni problemau tymor byr yn y gyllideb e.e. gostyngiad mewn incwm a dderbynnir, goramcangyfrif incwm neu tanamcangyfrif gwariant adeg paratoi'r gyllideb. Mae trosglwyddo arian yn barhaol yn digwydd pan drosglwyddir arian a bod hynny'n newid patrwm gwario ar wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.

Wrth ymarfer yr hawl i drosglwyddo arian, rhaid i swyddogion fod mewn sefyllfa lle gallant lwyr gyfiawnhau creu ymrwymiad parhaus ar yr Awdurdod

Lle mae trosglwyddo arian cyllideb yn debygol o ostwng lefel/safon gwasanaeth a ddarperir, dylai'r camau hyn o weithredu gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol**.**

Y rheolau a'r terfynau trosglwyddo arian yw fel a ganlyn:

Trosglwyddo Arian o fewn Adrannau

a. Hyd at £10,000

Gall rheolwyr cyllideb drosglwyddo arian o fewn gwasanaeth.

b. Rhwng £10,001 a £25,000

Gall Swyddogion Cyfrifol drosglwyddo arian o fewn a rhwng gwasanaethau.

c. Rhwng £25,001 a £100,000

Gall Cyfarwyddwyr drosglwyddo arian rhwng gwasanaethau o fewn yr Adran.

d. Rhwng £100,001 a £200,000

Rhaid i Gyfarwyddwr sy'n dymuno trosglwyddo swm rhwng gwasanaethau, o fewn Adran, sy'n uwch na £100,000 ac yn is na £200,000 gael cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Aelod gwasanaeth perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol.

e. Mwy na £200,000

Rhaid i Gyfarwyddwr sy'n dymuno trosglwyddo swm rhwng gwasanaethau o fewn Adran, sy'n uwch na £200,000 gael cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol.

Mae pob un o'r symiau uchod yn uchafswm cronnol y gellir eu trosglwyddo i mewn i neu allan o wasanaeth mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Rhaid hysbysu'r rheolwr llinell priodol am unrhyw arian a drosglwyddir fel rhan o'r gweithdrefnau misol arferol o gyflwyno adroddiad ar y gyllideb.

Trosglwyddo Arian Rhwng Adrannau

a. Hyd at £200,000

Rhaid i'r Cyfarwyddwyr Gwasanaeth dan sylw gytuno ar y trosglwyddiadau hyn a rhaid i'r trosglwyddiadau gael eu cadarnhau gan yr aelodau priodol o'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau.

b. Dros £200,000

Rhaid i'r Cyfarwyddwyr Gwasanaeth dan sylw gytuno ar y trosglwyddiadau hyn a rhaid i'r trosglwyddiadau gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol.

Rhaid rhoi gwybod am bob arian a drosglwyddir i'r Adran Adnoddau ar ffurflen VIR 1 (gweler atodiad C o'r Llawlyfr Cyllideb) fydd yn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r System Rheolaeth Ariannol.

Dylid hefyd nodi'r cyfarwyddyd ychwanegol canlynol ar drosglwyddo arian:

- Gellir trosglwyddo rhan o gyllideb i wasanaeth arall dim ond os oes sicrwydd na fydd ei angen i gwrdd ag anghenion gwariant y gwasanaeth gwreiddiol.

- Rhaid i swm net y gyllideb a drosglwyddir rhwng gwasanaethau fod yn sero bob amser, ac ni all arwain at gynnydd yn y gyllideb gyffredinol mewn blynyddoedd i ddod. Rhaid i drosglwyddo rhwng y Cyfrif Refeniw Tai a Chronfa'r Cyngor gael cytundeb y Cyfarwyddwr Adnoddau.

5. PENDERFYNIADAU BRYS SY'N GROES I'R GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI NEU SYDD HEB FOD YN GWBL UNOL Â HWY

5.1 Gall y Bwrdd Gweithredol, Aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu swyddog sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol wneud penderfyniad sy'n groes i Gyllideb a Fframwaith Polisi y Cyngor os yw'r penderfyniad yn fater brys. Fodd bynnag gellir ond gwneud y penderfyniad:

5.2 Os nad yw'n ymarferol i alw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn; ac os yw cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn cytuno bod y penderfyniad yn fater brys.

5.3 Rhaid i'r rhesymau pam nad yw'n ymarferol i alw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn, a pham fod cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi caniatáu i'r penderfyniad gael ei wneud fel mater brys, gael eu nodi ar y cofnod o'r penderfyniad. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol (h.y. os nad yw ef/hi ar gael dros gyfnod y broses e.e. ar wyliau/yn sâl), bydd caniatâd y Prif Weithredwr yn ddigonol.

5.4 Yn dilyn y penderfyniad, bydd y sawl a gymerodd y penderfyniad yn rhoi adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn egluro'r penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad a pham yr ymdriniwyd â'r penderfyniad fel mater brys.